

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26 <sup>ain</sup> Mehefin, 2018
PWNC	Diogelwch personol ar gyfer aelodau etholedig.
PWRPAS	Codi ymwybyddiaeth yr aelodau etholedig o'r Adnoddau sydd ar gael i gynghori Aelodau ynghylch eu diogelwch personol.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Mae gan Aelodau Etholedig rôl amlwg fel ffigwr cyhoeddus. Mewn unrhyw rôl cyhoeddus, mae'n golygu fod Aelodau yn agored i gyswllt gan y gymuned ar unrhyw adeg. Mae'r cyswllt hwnnw yn gallu bod yn bositif iawn, ond, yn anffodus, ar adgau, gall hefyd fod yn negyddol.
2. Yn anffodus, gall olygu fod aelodau etholedig yn agored i gael eu cam-drin ar lafar, yn ysgrifenedig, neu ar-lein, yn gallu cael eu stelcian neu eu haflonyddu yn gyffredinol. Daeth y peryg posib i aelodau etholedig i flaen meddyliau pawb yn dilyn digwyddiad trasig marwolaeth yr Aelod Seneddol, Jo Cox yn Mehefin 2016.
3. Fodd bynnag, mae camau penodol y gellir eu cymeryd i fod yn sicrhau eich diogelwch eich hunain. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi creu canllawiau i aelodau ar gyfer ymdrin â chamdriniaeth ar-lein. Yn ogystal, maent wedi creu tudalen benodol ar gyfer diogelwch personol aelodau etholedig ar eu safle we (cyswllt isod) er mwyn cynorthwyo aelodau. Mae'r adnoddau sydd ar y safle we yn cynnwys cysylltiadau at adnoddau ar safleoedd gwe defnyddiol eraill ee Mudiad Ymddiriedolaeth Susie Lamplugh.

<http://wlga.cymru/personal-safety-for-members>

4. Hyd yma, yng Ngwynedd, nid ydym yn ymwybodol fod materion penodol wedi codi am ddiogelwch Aelodau Etholedig. Hyd yma, ni drafodwyd y mater yn y pwyllgor, er ei fod wedi ei godi gan ambell aelod fel rhan o eitem arall.
5. Felly, gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried beth yw gofynion yr aelodau o ran arweiniad ar ddiogelwch, ydyw'r canllawiau gan y WLGA yn ddefnyddiol a digonol. Gofynnir hefyd i'r Aelodau ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth gweddill yr aelodau i'r canllawiau defnyddiol hyn.

